1. Y MARCHOGION A AETH I LAN Y MÔR (Haf)

Un tro roedd yna ddau farchog. Marchog tal dewr oedd Syr Cwthbert a marchog byr dewr oedd Syr Cledwyn. Eu swyddogaeth oedd amddiffyn y wlad rhag dreigiau, ellyllon, gwrachod, gelynion a phopeth drwg dan yr haul. Er mwyn cyflawni'r gwaith roedd ganddynt darian fawr ddisglair, arfwisg trwm ac arfau niferus.

Nawr, mae gwarchod eich gwlad (hyd yn oed os mai gwlad fach yw hi) rhag dreigiau ac ellyllon a gwrachod a gelynion a phopeth drwg dan haul am hanner cant a dwy o wythnosau'r flwyddyn yn waith caled. Bob nos dychwelai'r ddau farchog o faes y frwydr wedi llwyr ymlâdd, hyd nes i'r frenhines un dydd benderfynu cael gair â'r brenin.

'Wyddost ti beth, cariad?' sibrydodd yn ei glust, 'dwi'n credu fod Syr Cwthbert a Syr Cledwyn yn ei gor-wneud hi.'

'Wyt ti wir?' meddai'r brenin.

'Ydw. A wyddost ti beth, fy angel? Dwi'n credu fod arnynt angen seibiant.'

'Seibiant?' meddai'r brenin.

'Ie, f'anwylyd. Rwy'n credu y dylen nhw fynd i ffwrdd am wyliau.'

Felly galwodd y brenin am Syr Cwthbert a Syr Cledwyn.

'Rydyn ni wedi penderfynu eich anfon i lan y môr am wythnos,' eglurodd y frenhines. 'Cewch adeiladu cestyll tywod ac ymdrochi a physgota a chwarae pêl. Byddwch fel dynion newydd wedi dod yn ôl.'

Wel, er nad oedd yr un o'r ddau farchog wedi bod i lan y môr o'r blaen, roeddent yn rhy flinedig i edrych ymlaen. Ond i ffwrdd yr aethant yn sigledig i siop y pentref i brynu'r holl bethau yr oedd y frenhines wedi dweud wrthynt am eu cael: dwy set o drowsusau nofio, dau dywel, dwy wialen bysgota, heb anghofio wrth gwrs am y ddau fwced a rhaw. Cafodd y cyfan ei bacio'n dwt i'w sachau cyfrwy.

'Byddwn ar ein ffordd i lan y môr ddydd Gwener,' meddai'r ddau farchog blinedig wrth eu holl ffrindiau a pherthnasau.

Ac roedd eu ffrindiau a'u perthnasau wrth eu boddau. 'Grêt! Fe wnaiff fyd o les i chi,' meddai pawb.

O'r diwedd fe ddaeth dydd Gwener ac roedd y brenin a'r frenhines yno i ddweud ffarwél wrth y marchogion. Gydag ymdrech fawr dringodd Syr Cwthbert ar gefn ei geffyl mawr du ac yn yr un modd llusgodd Syr Cledwyn ei hunan i ben ei geffyl bach brown.

Roedd pawb yn gweiddi ac yn chwifio dwylo wrth iddynt ymadael.

Am gyfnod llusgodd y ddau ymlaen, ochr yn ochr, heb yngan dim. Yna edrychodd Syr Cledwyn ar ei ffrind gan wgu'n flinedig a dweud,

'Cwthbert, wyt ti wir yn meddwl y gwnaiff y gwyliau hyn y tric?'

'Dwi'm yn deall. Beth wyt ti'n feddwl – gwneud y tric?'

'Be dwi'n geisio'i ddweud yw, wyt ti wir yn credu y byddwn ni fel dynion newydd wedi wythnos ar y traeth? Mae'r frenhines yn disgwyl i ni ddychwelyd yn llawn egni. Dwi'n gobeithio na wnawn ni ddim ei siomi.'

'A finnau,' ochneidiodd Syr Cwthbert.

Ddwyawr yn ddiweddarach, wrth i'r ddau droi cornel ar y ffordd o'u blaenau, gwelsant olygfa wych: y môr glas grisial, tywod gwyn disglair a choed palmwydd gwyrdd cysgodol.

'Mae'n rhaid mai hwn yw'r traeth,' meddai Syr Cwthbert. 'Gwell i ni adeiladu cwpwl o gestyll tywod cyn cinio.'

Dros y tri diwrnod nesaf gwnaeth y marchogion bopeth yr oedd y frenhines wedi dweud wrthynt am ei wneud. Ben bore byddent yn cicio pêl, yna'n codi ychydig o gestyll tywod ac yna'n ôl at y bêl. Wedi machlud haul byddent yn ysgrifennu cardiau post gan ddweud wrth eu cyfeillion a'u perthnasau mor galed yr oeddent yn ymdrechu i fwynhau eu hunain.

'Ers faint yden ni wedi bod yma?' holodd Syr Cledwyn ar ôl brecwast y pedwerydd dydd.

Cymerodd Syr Cwthbert beth amser i feddwl. 'Tri diwrnod, deg awr, pedwar deg munud a phum eiliad ar hugain i fod yn fanwl gywir. Wyt ti'n dechrau teimlo fel dyn newydd eto?'

Yn fwy blinedig nag erioed, ysgydwodd Syr Cledwyn ei ben. 'Dwi'n teimlo'n waeth nag oeddwn i pan gyrhaeddais yma dridiau'n ôl.'

'Finnau hefyd,' ochneidiodd Syr Cwthbert.

O diar! Y peth olaf roedd y ddau eisiau ei wneud oedd cyfaddef fod y frenhines wedi gwneud camgymeriad ac nad oedd y gwyliau wedi gwneud y tric.

Syllodd Syr Cwthbert ar y môr yn ddigalon. 'Falle nad yden ni wedi nofio digon.'

'Y tro diwethaf i mi geisio nofio bu bron i mi foddi,' atgoffodd Syr Cledwyn ei gyfaill.

'Wel, falle mai adeiladu rhagor o gestyll sydd ei angen.'

'Os bydda i'n gorfod llenwi bwced â thywod unwaith eto mae'n beryg i mi lewygu,' meddai Syr Cledwyn.

'Iawn, 'te. Efallai mai'r peth gorau i ni fyddai rhoi rhagor o hufen haul arnom a mynd i gysgu ar ein matiau.'

'Cwthbert,' meddai Cledwyn yn bendant, 'dwi'n gwrthod rhoi rhagor o'r stwff seimlyd yna ar fy arfwisg. Mae'n helmed i eisoes mor llithrig nes dwi'n ei gollwng hi ar lawr bob munud. Gymerodd hi oesoedd i mi ei rhoi ar fy mhen y bore 'ma.'

'Ie. Dwi'n deall yn iawn,' cytunodd Cwthbert yn ddigalon. 'Gymerodd hi oesoedd i minnau wisgo'n arfwisg hefyd.'

Syllodd y ddau farchog ar ei gilydd yn benisel. Ac yna, o rywle, daeth syniad mentrus i ben Syr Cledwyn.

'Cwthbert,' dywedodd, 'wyt ti'n meddwl y bydden ni'n mwynhau'r gwyliau yma'n well pe baen ni'n tynnu'r hen arfwisg

yma? Wedi'r cyfan . . . pe baen ni heb ein harfwisg yna fyddai rhedeg o gwmpas ddim yn gymaint o ymdrech. Fe allen ni deimlo'r haul ar ein cefnau a'r tywod o dan ein traed. Fydden ni'n llawer brafiach ac yn fwy cyfforddus. Pwy ŵyr – efallai y gallen ni nofio heb suddo . . . '

'Ond marchogion yden ni!' ebychodd Syr Cwthbert. 'Does neb byth yn gweld marchogion heb eu harfwisg. Rhaid i ni amddiffyn ein hunain rhag dreigiau ac ellyllon a gwrachod a gelynion a phopeth drwg dan yr haul. Fe allen nhw ymosod arnon ni . . . neu'n waeth . . . beth petaent yn chwerthin am ben ein pengliniau esgyrnog?'

Ond doedd Syr Cledwyn ddim yn gwrando. Roedd wedi diflannu tu ôl i graig. A phan ddaeth i'r golwg eto prin y gallai Syr Cwthbert gredu'r hyn a welai. Y cwbl oedd gan ei ffrind amdano oedd trowsus nofio bychan streipiog.

'Cledwyn!' ebychodd. 'Ti ddim yn gall.'

'Falle wir,' meddai Syr Cledwyn. 'Ond dwi'n hidio dim. Dwi ddim yn teimlo dan bwysau mwyach. Dwi'n teimlo fel dyn newydd . . .' Ac i ffwrdd ag ef, gan rasio ar draws y tywod yn llamu ac yn bloeddio mewn llawenydd. Cyn pen dim, roedd yn sblasio yn y môr.

'Pam na wnei di ymuno hefo fi?' galwodd ar ei ffrind oedd yn dal i eistedd ar y traeth yn chwys diferol o dan hanner can pwys o haearn. 'Tyn dy arfwisg. Wnei di byth goelio cymaint o wahaniaeth mae'n ei wneud.'

Ond gwrthod a wnaeth Syr Cwthbert. Fedrai o ddim goddef y syniad o neb – hyd yn oed ei ffrind pennaf – yn ei weld heb ei arfwisg. Ar ddiwedd yr wythnos, dychwelodd i faes y frwydr yn fwy blinedig nag erioed, tra aeth Syr Cledwyn adref yn iach fel cneuen ac yn hapus fel clown – wedi ei lwyr adnewyddu gan yr haul a'r môr a'r tywod.

HYD: 8 munud. Gall weithio'n dda fel meim.

NEGES: Mae Duw'n bendithio'r rhai sy'n barod i newid.

DARLLEN: Mathew 19: 16–22, 27–30.